Swansea University
Prifysgol Abertawe

# Prifysgol Abertawe

## Nodyn Arweiniad  Rheoli Gwastraff WMGN29:

- **Gwastraff Tramgwyddus (Bag Teigr)**
- **Trefol/gwastraff nad yw'n beryglus**
- **Gofal Iechyd / Gwastraff Awtoclafau**

| | |
|---|---|
| Wedi'i ddiweddaru gan: | Ben Harris (Swyddog Cynaliadwyedd) |
| **Cymeradwywyd gan:** | Teifion Maddocks (Rheolwr Cynaliadwyedd) |
| **Dyddiad creu:** | 10/12/2018 |
| **Dyddiad y fersiwn:** | 18/11/2025 |

| Nodyn Arweiniad Rheoli Gwastraff WMGN29<br>Gwastraff Tramgwyddus (Bag Teigr) | |
|---|---|
| Lleoliad lle cynhyrchir y gwastraff | Crèche / Clinig Gofal Iechyd / Labordy |
| Côd Gwastraff Ewropeaidd (EWC) | Gwastraff Trefol Tramgwyddus 20 01 99<br>Gwastraff Gofal Iechyd nad yw'n beryglus a Gwastraff Awtoclafau Dadactifedig 18 01 04 / 18 02 03 |
| Dosbarth Cludo a Rhif UN | Ddim yn berthnasol |
| Math | Rheoledig – Gwastraff annymunol, yn gyffredinol nad yw'n beryglus |
| Dull gwaredu | Wedi'i wahanu i'w losgi |
| Math Bin/Bag | Bin metel gwrth-dân / Bag streipen teigr melyn a du |

## Gofynion Dyletswydd Gofal

**Mae 'gwastraff tramgwyddus' yn wastraff sydd:**

- **Yn wastraff trefol nad yw'n beryglus (e.e. clytiau a gwastraff misglwyf),**
- **Nid yw'n wastraff clinigol**
- **Nid yw'n heintus**
- **Nid yw'n beryglus**
- **Mae'n cael eu nodi yn ôl y codau gwastraff 18 01 04 os yw o ofal iechyd, 18 02 03 os yw o ymchwil, diagnosis neu driniaeth sy'n cynnwys anifeiliaid, neu 20 01 99 os yw o ffynonellau trefol.**
- **Mae hefyd yn wastraff gofal iechyd nad yw'n halogedig a gwastraff clinigol peryglus wedi'i ddadactifadu (gwastraff labordy wedi'i awtoclafio).**

Rhaid gwahanu gwastraff trefol tramgwyddus, a gwastraff gofal iechyd tramgwyddus oddi wrth ffrydiau gwastraff eraill. O dan Reoliadau Gwastraff 2011 a Rheoliadau Gwastraff Rheoledig (Cymru a Lloegr) 2012 rhaid gwahanu gwastraff tramgwyddus oddi wrth wastraff trefol (bagiau du) os cynhyrchir mwy na 7kg mewn un llwyth, sydd tu hwnt i'r hyn a gynhyrchir yn rhwydd yng ngweithrediadau'r Brifysgol.

EWC 20 01 99: **Gwastraff tramgwyddus trefol**, e.e. gwastraff hylendid a diogelwch glanweithiol fel clytiau a phadiau anymataliaeth

EWC 18 01 04: **Gwastraff tramgwyddus ym maes gofal iechyd**, e.e. rhwymynnau allanol a dillad amddiffynnol fel mygydau, gynau a menig nad ydynt wedi'u halogi â hylifau'r corff, a gwastraff labordy wedi'i sterileiddio **(bodau dynol)**. Mae hyn wedi'i gyfyngu i wastraff tramgwyddus o ofal iechyd a gweithgareddau cysylltiedig **(gan gynnwys gwastraff wedi'i awtoclafio o labordai).**

EWC 18 02 03: **Gwastraff tramgwyddus ym maes gofal iechyd,** e.e. rhwymynnau allanol a dillad amddiffynnol fel mygydau, gynau a menig nad ydynt wedi'u halogi â hylifau'r corff, a gwastraff labordy wedi'i sterileiddio (**anifeiliaid**). Mae hyn wedi'i gyfyngu i wastraff tramgwyddus o ofal iechyd a gweithgareddau cysylltiedig **(gan gynnwys gwastraff wedi'i awtoclafio o labordai).**

**Am wastraff labordy wedi'i awtoclafio gweler WMGN30 Biolegol**

Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 07-01: Mae Rheoli Gwastraff Gofal Iechyd yn Ddiogel[1], yn darparu arweiniad cynhwysfawr ar waredu gwastraff gofal iechyd yn unol â safonau'r diwydiant, a gofynion cyfreithiol, ac yn amlinellu'r system cod lliw a gydnabyddir yn genedlaethol ar gyfer gwastraff gofal iechyd/clinigol.

**Offensive/Hygiene Waste**

## Eitemau

### Trefol Tramgwyddus
- Cewynnau
- Cewynnau Anymataliaeth
- Nwyddau mislif
- Bagiau Colostomi
- Cathetrau
- Rhwymynnau anheintus etc.

### Gofal iechyd Tramgwyddus
- PPE – Dillad amddiffynnol; mygydau, gynau a menig/papur glas/tywelion papur (heb eu halogi/heintus)
- Offerynnau untro (gostyngwyr tafod, specwla etc.)
- Rhwymynnau gan gleifion nad ydynt yn heintus

### Gofal iechyd tramgwyddus (Gwastraff wedi'i awtoclafio mewn labordy) gweler WMGN30 Biolegau
- Heb fod yn gyfyngedig i PPE wedi'i ddadactifadu – Dillad amddiffynnol; mygydau, gynau a menig (wedi'u halogi)

Nid yw gwastraff tramgwyddus yn beryglus.**Os gwyddys fod eitem yn heintus, wedi'i halogi â chemegau/meddyginiaethau, yn ymbelydrol, neu'n finiog, nid yw'n wastraff tramgwyddus.**

## Cyfarwyddiadau Gwaredu

### Storio Mewnol

Rhaid i bob ardal sy'n cynhyrchu gwastraff trefol a gwastraff tramgwyddus ym maes gofal iechyd gosod biniau gwastraff penodol, mae manyleb safonol wedi'i datblygu ac ar gael yma.

[1] Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 07-01: Rheoli Gwastraff Gofal Iechyd yn Ddiogel

**Gwastraff Gofal iechyd Tramgwyddus**

- PPE – Dillad amddiffynnol; mygydau, gynau a menig a phapur glas/tywelion papur (dim hylifau'r corff/anifeiliaid)

**Gwastraff Trefol Tramgwyddus**

- Cewynnau
- Cewynnau Anymataliaeth
- Nwyddau mislif

**Gwastraff Ymchwil Tramgwyddus (Gwastraff wedi'i Awtoclafio mewn Labordy)**

- PPE wedi'i ddadactifadu – Dillad amddiffynnol; mygydau, gynau a menig (Halogedig)

Ar gyfer gwastraff wedi'i awtoclafio gweler WMGN30 Biolegol ac ymgynghorwch â Swyddogion Diogelwch Biolegol penodedig y Gyfadran (a/neu arweinwyr iechyd a diogelwch) am ragor o arweiniad.





Ffigur 1 – Bag Teigr a bin metel gwrth-dân dewisol

Peidiwch â gadael bagiau teigr llawn igronni yn y storfa. Rhaid eu gwaredu'n aml gan fod cyfyngiadau cyfreithiol wedi'u gosod ar storio gwastraff tramgwyddus.

Ni ddylid rhoi unrhyw bethau miniog mewn bagiau teigr o dan unrhyw amgylchiadau, nac eitemau a allai rwygo'r bag, gan gynnwys blaenau miniog. Mae gwydr yn tyllu'r bagiau ac mae ganddo oblygiadau iechyd a diogelwch i unrhyw un sy'n trin y bagiau.

Storio Allanol

**Gwastraff Gofal iechyd Tramgwyddus**

- PPE – Dillad amddiffynnol; mygydau, gynau a menig **(dim hylifau'r corff/anifeiliaid)**

**Gwastraff Trefol Tramgwyddus**

- Cewynnau
- Cewynnau Anymataliaeth
- Nwyddau mislif




Ffigur 2 – Bin olwynion melyn allanol

Ni ddylid rhoi bagiau teigr melyn a du mewn biniau du allanol nad ydynt ar gyfer ailgylchu, na biniau ailgylchu. Rhaid rhoi pob Bag Teigr Melyn a Du mewn biniau olwynion melyn yn y lleoliadau yma;

**Campws Singleton**

- Meithrinfa
- Storfa Wastraff ILS1

Rhaid cloi pob bin bob amser. Ni ellir rhoi unrhyw wastraff arall, na blychau â chribiau melyn, gyda bagiau teigr melyn a du yn y biniau melyn allanol (ni ddylid cymysgu gwahanol ffrydiau gwastraff peryglus).

## Gwastraff Ymchwil Tramgwyddus (Gwastraff wedi'i awtoclafio)

Unwaith y bydd gwastraff wedi'i awtoclafio yn y labordy, rhaid rhoi bagiau awtoclaf mewn bagiau teigr, gan fod gwastraff ar ôl ei awtoclafio a'i ddadactifadu yn cael ei ddosbarthu fel Gwastraff Tramgwyddus EWC 18 01 04 neu 18 02 03 a gellir ei roi yng Nghompownd Gwastraff ILS 1.

## Ar gyfer Y GYFADRAN GWYDDONIAETH A PHEIRIANNEG (FSE)/ Y GYFADRAN MEDDYGAETH, IECHYD a GWYDDOR BYWYD (FMHLS)




Ffigur 1 Llwybr gwaredu gwastraff Categori A ar gyfer FSE/FMHLS

## Cost Gwaredu


Am ragor o arweiniad, e-bostiwch estates-waste@abertawe.ac.uk

| |
|---|
| **Ffurflenni a labelu**<br><br>Gellir dod o hyd i arwydd Gwastraff Tramgwyddus yn Unig (Gofal iechyd glanweithiol a di-halogedig trefol) isod<br><br>Gellir dod o hyd i arwydd Gwastraff Awtoclafio yn Unig isod<br><br>Mae'r holl ffurflenni gwastraff perthnasol, labeli a chanllawiau gwastraff pellach i'w cael **yma**. |

**Atodiad 1 : Diagram Gwahanu a Dosbarthu Gwastraff[2]**

[2] Memorandwm Technegol Iechyd 07-01: Atodiad 3

Defnyddiwch y diagram llif canlynol i sicrhau eich bod yn defnyddio'r bin lliw cywir i'ch gwastraff




Sylwer: Er bod yr arweiniad hwn yn berthnasol yn benodol i wastraff o leoliadau clinigol a gofal iechyd, gall gael ei ddefnyddio i lywio arferion gwastraff mewn amgylcheddau labordy eraill. Fodd bynnag, cyfeiriwch at y Nodiadau Cyfarwyddyd Rheoli Gwastraff(WMGN)perthnasol ar gyfer gwastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus arall.

# GWASTRAFF TRAMGWYDDUS YN UNIG (GWASTRAFF GLANWEITHIOL TREFOL A GOFAL IECHYD NAD YW'N HALOGEDIG)



## BAG TEIGR MELYN A DU YN UNIG

**BIN METAL CLINIGOL Â CHAEAD FFLIP - EWC 18 01 04 / 18 02 03 / 20 01 99**

**EITEMAU**

PPE NAD YW WEDI EI HALOGI – MENIG / MYGYDAU / FFEDOGAU / PAPUR GLAS / WEIPS – CEWYNAU - GWASTRAFF ANYMATALIAETH

DIM GWYDR O UNRHYW FATH – PETHAU MINIOG / GWASTRAFF CEMEGOL / GWASTRAFF DOMESTIG NEU AILGYLCHU / DIM MICRO-ORGANISMAU HYFYW / MEITHRINIADAU CELLOEDD

PEIDIWCH Â RHOI SACHAU MELYN A DU MEWN BINIAU ALLANOL - AILGYLCHU NEU DIRLENWI

# GWASTRAFF AWTOCLAFIO YN UNIG



## BAG TEIGR MELYN A DU YN UNIG

**BIN METAL CLINIGOL Â CHAEAD FFLIP - EWC 18 01 04 / 18 02 03**

**EITEMAU**

**PPE – MENIG / MYGYDAU / DYSGLAU PETRI / FFLASGIAU MEITHRIN MEINWE / MEITHRINIADAU CELLOEDD MICRO-ORGANEBAU**

**NI DDYLID GOSOD PIPETAU / BLAENAU PLASTIG / PIPETAU SEROLEGOL / CHWISTRELLAU MEWN BAGIAU AUTOCLAFIO - RHAID EU DIHEINTIO Â VIRKON AC YNA EU GOSOD MEWN BOCSYS PENODOL AR GYFER PETHAU MINIOG**